Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-841
Ein cyf/Our ref KS/03187/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Government.Committee.Business@gov.wales

20 Tachwedd 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref ynghylch Deiseb P-05-841 i gynnwys y dewis arall i'r cynnig 'Pont Bendigeidfran' ar gyfer y 3ydd Bont ar draws y Fenai yn y broses asesu ffurfiol.

Fel y nodais yn fy llythyr i'r Pwyllgor Deisebau ar 24 Medi, mae cynnig Mr Poulton yn cael ei asesu a'i ystyried ymhellach. Mae'r ymgynghorwyr AECOM a Knight Architects yn asesu a datblygu cysyniadau dylunio pontydd sy'n cydweddu orau â thirwedd y Fenai ac mae ymgynghoriad ar yr opsiynau hyn â Comisiwn Dylunio Cymru yn parhau.

Rhan o'r asesiad yw penderfynu a ddylid cynnwys cerflunwaith ar strwythurau pontydd, megis Pont Bendigeidfran Mr Poulton. Fel yn achos pob buddsoddiad a wneir mewn prosiectau seilwaith, mae sicrhau'r budd economaidd gorau posibl yn rhan allweddol o ddatblygiad cynllun a bydd hynny'n wir hefyd yn achos y 3ydd Bont ar draws y Fenai. Bydd ymgynghori a cheisio barn a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol hefyd yn rhan hollbwysig ac allweddol o ddatblygiad y cynllun hwn.

Yr Eich

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.